Hi fydd yn sych a gwresog y fory.	It will be dry and warm to-morrow.
Yna rhaid i'r gwynt symud.	Then the wind must shift.
Mae hi yn chwythu yn galed y dyddiau hyn.	It is blowing hard these days.
Eto mae yn iachach na'r niwl llaith yr wythnos ddiweddaf.	Still it is healthier than the damp fog of last week.

AMSER.—TIME.

Beth o'r gloch yw hi?	What o'clock is it?
Mae hi yn un, dau, tri, &c.	It is one, two, three, &c.
A yw eich oriawr yn ei lle?	Is your watch right?
Gosodais hi wrth awrlais y dre.	I have put it by the town clock.
Faint sydd er pan gododd yr haul?	How long is it since the sun rose?
Oddeutu awr a hanner.	About an hour and a half.
Pryd y mae ef yn machludo?	When does it set?
Am chwarter wedi saith.	At a quarter past seven.

Mae hi yn gynar eto.	It is early yet.
Ond bydd yn hwyr a thywyll cyn y cyrhaeddwn adref.	But it will be late and dark before we reach home.
Pa awr yr ydych yn ciniawa?	At what hour do you dine?
Am ddau yn gywir.	At two exactly.
Chwi a ddaethoch yn yr amser.	You came just in time.
Pa bryd mae y cyfarfod yn dechreu?	When does the meeting commence?
Am chwech yn yr hwyr.	At six in the evening.
Pa bryd y bydd hi yn ben llanw heddyw?	When will it be high water to-day?
Am ugain mynyd i bump.	At twenty minutes to five.
Fel mae yr amser yn pasio!	How the time passes away!
Ië! ac nid ydyw ein heinioes ond megys dyrnfedd.	Yes! and our life is but as an handbreadth.

Y CORFF.—THE BODY.

Mae gan yr eneth hon wyneb glandeg.	This girl has a comely face.
Mae gan y bachgen yna wynebpryd siriol.	That boy has a cheerful countenance.
Dynes a gwyneb hir.	A woman with a long visage.
Dyn cadarngryf o wynebpryd tywyll.	A strong man of a dark complexion.
Gwyneb gwridgoch, a llygaid gleision.	A ruddy face, and blue eyes.
Pâr o ddannedd gwastad, a gwallt crych.	A regular set of teeth, and curly hair.
Llanc difarf, gyda gwallt llaes plethedig.	A beardless youth, with long platted hair.
O'r ysgwydd i'r arddwrn	From the shoulder to the wrist.
O'r penelin i flaenau y bysedd.	From the elbow to the point of the fingers.
Y mae i'r llaw bedwar o fysedd ac un fawd.	The hand has four fingers and one thumb.
A chan bob bys y mae ewin.	And every finger has a nail.
Cauwch eich llaw, a gwnewch eich dwrn.	Clench your hand, and make your fist.
Sefwch ar eich traed, yna cwympwch ar eich gliniau.	Stand upon your feet, then fall on your knees.

Mae y galon yn curo yn y fynwes.	The heart beats in the bosom.
Aelodau hirion a fferau gweinion.	Long limbs and weak ankles.
Ni wlychais wadn fy nhroed.	I did not wet the sole of my foot.
Mae ei gwaed wedi fferu.	Her blood is congealed.
Mae ei anadl yn ei ffroenau.	His breath is in his nostrils.

IECHYD.—HEALTH.

Person iach heinyf ydyw efe.	He is a healthy sprightly person.
Llanc llawen gwisgi yw hwn.	This is a cheerful alert youth.
Dyna fun hoew fedrus.	That is a nimble skilful lass.
Hen wr llesg a musgrell.	A decrepit helpless old man.
Mae y pâs ar y plant.	The children have the hooping cough.
Mae y frech wen yn y teulu.	The small pox is in the family.
Mae y cryd ar y bachgen yna.	That boy has the ague.
Y mae cur yn fy mhen, ac yr wyf yn mron llewygu.	I have a headache, and am ready to faint.
Chwi gewch yr anwyd yna, mi a'ch clywaf yn pesychu.	You will catch cold there, I hear you coughing.
Y mae crygni mawr arno, a blinir ef gan ddiffyg anadl.	He has a great hoarseness, and is troubled with the asthma.
Yr oedd y ddannodd arnaf drwy y nos.	I had the tooth-ache all night.
Mae y gymalwst neu y droedwst ar y dyn yna.	That man has the rheumatism or the gout.
Y mae twymyn yn y gymydogaeth.	There is a fever in the neighbourhood.
Mae llawer yn marw o'r geri.	Many die of the cholera.
Mae marwolaethau disymwth yn aml, ond y mae rhai yn marw o henaint.	Sudden deaths are frequent, but some die of old age.
Mae fy mrawd yn y darfodedigaeth.	My brother is in a consumptive state.
Mae fy chwaer yn gwella.	My sister is convalescent.
Mae fy ewythr yn myned waeth waeth.	My uncle gets worse and worse.

Mae efe yn chwysu yn y nos, ac yn teimlo ei hun yn llesg iawn.	He perspires in the night, and feels himself very languid.
Pa hyd y buoch chwi yn glaf?	How long were you ill?
Bum yn gorwedd oddeutu tair wythnos ar ddeg.	I was lying about thirteen weeks.
Ond yr ydych yn gwellhau ychydig.	But you recover a little.
Ydwyf, yr wyf yn cryfhau bob dydd, ac wedi gadael heibio physigwriaeth.	Yes, I gather strength daily, and have left off medicine.
Y mae iechyd yn werthfawr.	Health is precious.
Da yw bod yn gymedrol.	It is well to be abstemious.
Cynghorir i ymdrochi yn y môr.	Sea-bathing is recommended.
Y mae cwsg yn adfywio dyn.	Sleep refreshes a man.
Ond y mae hir gysgu yn byrhau einioes.	But long sleep shortens life.
Ni a gawn ddigon o gysgu yn y bedd.	We shall sleep enough in the grave.
Nid yw bywyd ond byr.	Life is but short.
Gadewch i ni wneyd y goreu o'n hamser.	Let us make the best of our time.

GWISGOEDD.—APPAREL.

Y mae arnaf eisieu ychydig ddwfr i ymolchi.	I want a little water to wash myself.
Rhowch i mi dipyn o sepon.	Give me a little soap.
A wnewch chwi roi benthyg ellyn i mi?	Will you lend me a razor?
Ceisiwch i mi grys glân, a gochelwch ei fod yn llaith.	Get me a clean shirt, and beware lest it be damp.
Byddwch gystal ag estyn fy macyn sidan.	Be so good as to reach my silk handkerchief.
Dewch a phâr o hosanau gwlan i mi.	Bring me a pair of woollen stockings.
A ddychwelwyd fy llodrau o dŷ y teiliwr?	Are my trowsers returned from the tailor's?
Cynghorir fi i wisgo gwasgod wlanen.	I am advised to wear a flannel waistcoat.

Mi a roddaf fy nghôt ddu am danaf heddyw.	I will put on my black coat to-day.
Y mae ei llewys yn rhy hirion i mi.	Its sleeves are too long for me.
Mae y gôt las yn rhy lac, a'r un werdd yn rhy den.	The blue coat is too slack, and the green one too tight.
Rhaid i mi wisgo fy nghôt fawr, onite fe'm gwlychir hyd at y croen.	I must wear my top-coat, or I shall be wet to the skin.
Y mae hi yn rhy oer i fod heb fenyg.	It is too cold to be without gloves.
A yw fy esgidiau yn lân?	Are my shoes clean?
Y mae botasau yn well at farchogaeth.	Boots are better for riding.
Y mae genyf bâr rhagorol o yspardunau.	I have an excellent pair of spurs.
Pa le y mae fy het?	Where is my hat?
Mi a'ch cynghorwn i wisgo eich mantell.	I would advise you to put on your cloak.
A chymeraf fy ngwlawlen.	And I will take my umbrella.
Yn awr ynte yr wyf yn barod i gychwyn.	Now then I am ready for starting.

BWYDYDD.—VICTUALS.

Beth ewyllysiech chwi gael yn forefwyd?	What would you like to have for breakfast?
Gwnewch i mi gwpanaid o dê, oblegyd nid wyf hoff o goffi.	Make me a cup of tea, for I am not fond of coffee.
Mi a gymeraf ragor o siwgr.	I will take more sugar.
A oes genych ddim hufen?	Have you any cream?
Dyma laeth newydd ei odro.	Here is some new milk.
Torwch fara ac ymenyn.	Cut some bread and butter.
A ydych yn hoff o fara ceirch?	Do you like oat-bread?
Gwell genyf fara gwenith.	I would rather wheaten bread.
Gellwch gael teisenau os ych yn dewis.	You may have cakes if you choose.
Neu a fynwch chwi fara wedi ei grasu?	Or will you have some toasted bread?
Peidiwch ag ymdrafferthu, nid wyf yn anhawdd fy moddio.	Don't trouble yourself, I am not hard to please.

Mae hi yn bryd ciniaw, ac yr wyf yn teimlo yn newynog.	It is dinner time, and I feel hungry.
Nid oes arnaf fi ddim chwant bwyd.	I have no appetite for meat.
Beth sydd i giniaw heddyw?	What is for dinner to-day?
Y mae yma gig rhost a berw.	There is roasted and boiled meat.
Ai cig eidion yw ynte cig llo?	Is it beef or veal?
Manllwyn a chig oen ydyw.	It is mutton and lamb.
Mae genym hefyd gig moch, hudd-gig, a physgod.	We have also bacon, venison, and fish.
A gaf fi ddwyn i mewn yr ŵydd, y hwyaden, y twrci, neu y petrus?	Shall I bring in the goose, the duck, the turkey, or the partridges?
A oes genych ddim pŷs gleision?	Have you any green peas?
Dyma ddigon o gloron, maip, a moron.	Here is plenty of potatoes, turnips, and carrots.
Pwy gymer bŵdin?	Who will take pudding?
Pwy sydd hoff o frithog?	Who is fond of custard?
Dewch a'r caws i'r bwrdd.	Bring the cheese to the table.
Beth a yfwch chwi?	What will you drink?
Gwydraid o ddwfr glân.	A glassful of clean water.
A fynwch chwi gwrw, gwin, neu wirod?	Will you have ale, wine, or spirits?
Dim, diolch i chwi; yr wyf yn ddirwestwr.	Not any, thank you; I am a teetotaller.
Pa beth a gymerwch chwi i swper?	What will you take for supper?
Tamaid o gig oer, ac ychydig o'r bastai afalau.	A bit of cold meat, and a little of the apple pie.
A ydych chwi ddim yn hoff o wstrys, crancod, neu gocos?	Are you not fond of oysters, crabfish, or cockles?
Ydwyf; ceisiwch halen, pupur, a gwinegr.	Yes; get some salt, pepper, and vinegar.
Nid yw meddygon yn cymeradwyo llawer o swper.	Doctors do not recommend much supper.
Cymedroldeb, yn sicr, sy dda yn mhob peth.	Moderation, certainly, is good in all things.
Y mae hi yn awr yn bryd i fyned i orphwys.	It is now time to retire to rest.

MARCHNATA.—MARKETING.

Dewch a basged i mi i fyned i'r farchnad.	Bring me a basket to go to market.
Beth a brynwch chwi?	What will you buy?
Y mae arnaf eisieu cig.	I want some butcher's meat.
Pa faint y pwys yw y cig eidion hwn?	How much a pound is this beef?
Chwecheiniog a dimai.	Sixpence halfpenny.
Faint bwysa y darn yma?	What will this piece weigh?
Pymtheg pwys.	Fifteen pounds.
I ba faint y daw hyny yn ol pum ceiniog?	How much will that come to at five pence?
Chwe swllt a thair ceiniog.	Six shillings and three pence.
Beth ydych yn ofyn am y lwyn o gig dafad yma?	What do you ask for this loin of mutton?
Saith geiniog y pwys.	Seven pence a pound.
Anfonwch ef i'n tŷ ni.	Send it to our house.
Beth yw pris yr ŵydd hon?	What is the price of this goose?
Tri swllt a naw ceiniog.	Three shillings and nine pence.
Ffordd yr ydych yn gwerthu yr hwyaid yna?	How do you sell those ducks?
Deunaw ceiniog y cwpl.	Eighteen pence per couple.
Beth ydych yn ofyn am yr ymenyn?	What do you ask for the butter?
Deg ceiniog y pwys.	Ten pence a pound.
Pa faint o wyau sydd am swllt?	How many eggs are there for a shilling?
Rhof i chwi ddeg-ar-hugain.	I will give you thirty.
Y mae arnaf eisieu cwpanaid o gloron.	I want a cup of potatoes.
Dewch gyda mi i'r masnachdy hwn.	Come with me to this shop.
Faint y llath ydyw y brethyn glas yma?	How much a yard is this blue cloth?
Torwch i mi lathen a hanner, a rhowch fesur da.	Cut me a yard and half, and give good measure.
Beth y pâr ydych yn ofyn am yr hosanau gwlan hyn?	What a pair do you ask for these woollen stockings?
Maent yn rhy ddrud; rhaid i chwi ostwng ychydig.	They are too dear; you must abate a little.

Yr ydych yn gofyn gormod am yr het yma; y mae pedwar swllt ar ddeg yn ddigon.

You ask too much for this hat; fourteen shillings are enough.

A ellwch chwi newid papyr pum punt?

Can you change me a five pound note?

Nid oes genyf ddigon o arian; a gymerwch chwi bunt o bres?

I have not enough of silver; will you take a pound of copper?

Pa bryd y cawn ni wastadhau ein cyfrifon?

When shall we settle our accounts?

Tua'r Nadolig, ond odid.

About Christmas, probably.

Rhaid i mi gael tâl-ysgrif.

I must have a receipt.

Sut mae y llafur yn gwerthu?

How does corn sell?

Mae y gwenith yn gostwng ychydig, ond mae yr haidd a'r ceirch wedi bod yn codi yn ddiweddar.

Wheat is lowering a little, but barley and oats have been advancing of late.

Dywedwyd wrthyf fod mwy o alwad a gwell prisiau am anifeiliaid hefyd.

I have been told that there is a brisker demand and better prices for cattle too.

Felly y mae: yn wir mae gan y ffermwyr well golwg yn gyffredin nag a fu.

So there is: indeed the farmers have better prospects generally than they had.

Ac eto nid oes dim prinder o unpeth yn y farchnad.

And still there is no scarcity of anything in the market.

YMDEITHIO.—TRAVELLING.

A oes gwestdai cysurus yn Nghymru?

Are there commodious inns in Wales?

Oes, ac ystablau rhagorol yn y rhan fwyaf o honynt.

Yes, and excellent stables at most of them.

Y marchwas, gofalwch am fy ngheffyl.

Hostler, take care of my horse.

A oes genych wair da?

Have you good hay?

Rhowch iddo ddogn o geirch.

Give him a feed of oats.

Glanhewch fy nghaseg i, a rhoddwch ddŵr iddi.

Clean my mare, and give her some water.

Pa le mae y gweinydd?

Where is the waiter?

Cymerwch fy nghoffr i'r ystafell wely.

Take my trunk to the bedroom.

Twymwch y gwely, a rhowch i mi fenthyg canwyll.	Warm the bed, and lend me a candle.
Gobeithiaf nad yw y gwely ddim yn llaith.	I hope the bed is not damp.
Dewch a gwrthban arall, a rhowch i mi gap nos.	Bring another blanket, and give me a night-cap.
Ceisiwch i mi ychydig ddwfr, a thywel.	Get me some water, and a towel.
Pa bryd yr ydych yn bwriadu codi y fory?	When do you intend to get up to-morrow?
Parotowch fy morefwyd erbyn wyth o'r gloch.	Get my breakfast ready by eight o'clock.
Pa bryd y bydd y cerbyd yn cychwyn?	What time will the coach leave?
Pa sawl milltir sydd oddi yma i'r Amwythig?	How many miles are there to Shrewsbury?
A oes llawer o groes ffyrdd?	Are there many cross roads?
Oes; ond chwi gewch fynegbyst a cheryg-milltir.	Yes; but you will find finger-posts and mile-stones.
Ai dyma y ffordd i Aberteifi?	Is this the road to Cardigan?
Ië; ond byddai yn well i chwi ofyn eto yn y tolldy.	Yes; but you had better ask again at the toll-house.
A wna eich ceffyl dithio?	Will your horse trot?
Fe garlama yn rhagorol.	He will canter famously.
Yr wyf yn wlyb at y croen; rhowch fy nillad i sychu.	I am wet to the skin; put my clothes to dry.
Dewch a'm cyfrif, a chyfrwyer fy ngheffyl yn ddioed.	Bring my bill, and let my horse be saddled immediately.
Mi a gyrhaeddaf gartref cyn ei bod yn nos.	I shall reach home before it is night.

Y WLAD.—THE COUNTRY.

Boreu da i chwi, syr: ffordd yr ydych chwi heddyw?	Good morning to you, sir: how do you do to-day?
Yr wyf yn symol, diolch i chwi.	I am pretty well, thank you.
A ddewch chwi am dro i'r wlad?	Will you come for a stroll to the country?
Deuaf, gyda phleser; pa ffordd y cawn ni fyned?	I will, with pleasure; which way shall we go?

Beth ped aem ar hyd y ffordd, a dychwelyd drwy y caeau.

Suppose we go along the road, and return through the fields.

Purion; gadewch i ni gychwyn ynte.

Very well; let us start then.

Y mae awyr y wlad yn bur iachus, ac yn gwneyd lles mawr i mi yn wastad.

The country air is very healthy, and does me much good always.

Pwy sydd yn byw yn y plas draw?

Who lives in that mansion?

Gwr boneddig annibynol, a pherchenog y rhan fwyaf o'r ffermydd oddeutu yma.

An independent gentleman, and the owner of most of the farms about here.

Dyma breswylfod hardd arall; pwy sydd yn byw yma?

Here is another pretty residence; who lives here?

Offeiriad y plwyf; gwr hynod o barchus.

The clergyman of the parish; a very esteemed man.

Beth wyf yn weled tu hwnt i'r bont acw?

What do I see beyond the bridge yonder?

Y felin, ac ysgoldy y gymydogaeth.

The mill, and the school-house of the neighbourhood.

Y mae gerddi prydferth yn perthyn i'r bwthynod oddi amgylch yma.

There are beautiful gardens belonging to the cottages about here.

Oes; ac y maent yn bur gynnyrchiol hefyd.

Yes; and they are very productive too.

Yn sier cymydogaeth hyfrydol ydyw hon, ac mae y tlodion yn edrych yn ddedwydd.

Certainly this is a delightful neighbourhood, and the poor look happy.

Y mae hi felly; ac am y tlodion, y maent yn ddiwyd, boddlon, a chrefyddol.

It is so; and as for the poor, they are industrious, contented, and religious.

Yr wyf yn canfod yr eglwys, gyda'i chlochdy hybarch; a gawn ni ymweled â hi?

I see the church, with its venerable steeple; shall we visit it?

Ni chaniatâ yr amser yn bresennol; ond mi ddywedaf i chwi rywbeth am dani eto.

The time will not allow at present; but I will tell you something about it again.

Gadewch i ni droi yn ol ynte; a ydym ni i fyned dros y gamfa hon i'r caeau?

Let us turn back then; are we to go over this style into the fields?

Os cerddwn ychydig yn mhellach, ni a gawn lydiad.

A yw y pysgotwr yn cael difyrwch yn yr afon yma?

Ydyw, lawer iawn; y mae hi yn llawn o bysgod.

Mae gan y ffermwr hwn geffylau cryfion iawn; a yw efe yn cadw llawer o wartheg?

Nid llawer, ond y mae efe yn codi cnydau rhagorol.

Beth yw maint y tyddyn hwn?

Oddeutu chwech ugain cyfair.

Mae y meistr yn aredig, a'r llanc yn llyfnu.

Mae y llafur yn addfed, a'r bobl yn medi.

Mae y gwas yn dyrnu, ac y mae ereill yn nithio.

Mae y forwyn yn godro, ac y mae yr hogiau yn troi y moch i'w tylciau, ac yn casglu y defaid i'r gorlan.

Mae yr ŵyn wedi eu cneifio, a'r teisi wedi cael ei toi.

Mae gwair da yn y weirglodd hon; beth sydd yn tyfu yn y cae nesaf?

Gwenith yw, a darnau o haidd a cheirch yn y gwaelod.

A ydwyf yn gweled cae o datw tu hwnt iddo?

Ydych; gyda rhan o hono wedi ei osod at faip.

A ydynt yn codi llawer o ffa a phŷs ffordd hyn?

Ydynt, a bresych hefyd.

Rhyfeddol fel y mae pobpeth yn tyfu!

Felly y maent; ac mae genym olwg teg am gynauaf da.

If we walk a little farther, we shall have a gate.

Does the angler find any sport in this river?

Yes, a great deal; it abounds with fish.

This farmer has very strong horses; does he keep many cows?

Not many, but he raises excellent crops.

How large is this farm?

About six score acres.

The master is ploughing, and the young man harrowing.

The corn is ripe, and the people are reaping.

The servant is thrashing, and others are winnowing.

The maid is milking, and the lads are turning the pigs into their styes, and gathering the sheep into the fold.

The lambs have been shorn, and the stacks are thatched.

There is fine hay in this meadow; what grows in the field adjoining?

It is wheat, and pieces of barley and oats at the bottom.

Do I see a potato field beyond it?

You do; with a part of it set for turnips.

Do they raise much beans and peas about here?

Yes, and cabbage too.

Surprising how everything is growing!

So they do; and we have a fair prospect of good harvest.

Y MOR.—THE SEA.

A gawsoch chwi eich borefwyd?
Have you had your breakfast?

Do; ac yr oeddwn yn myned i lawr i'r traeth.
Yes; and I was going down to the beach.

Pa un ai llanw ai trai yw hi?
Is it high or low water?

Llanw; o leiaf mae y môr yn dyfod i fyny.
High; at least the tide is coming up.

Beth pe caem ni drochfa?
Suppose we have a dip?

O'rgoreu: a ellwch chwi nofio?
Very good: can you swim?

Dim oll; a rhaid i mi beidio anturio yn mhell allan.
Not at all; and I must not venture far out.

A yw y dwfr yn ddymunol?
Is the water agreeable?

Hyfryd dros ben; brysiwch ddyfod i mewn.
Most delightful; make haste to come in.

Yr wyf yn teimlo braidd yn ofnus, ac eto yn dyfod.
I feel rather timid, but still am coming.

Byddwch ofalus; y mae pwll peryglus ar eich aswy.
Be careful; there is a dangerous pool on your left.

Yn awr am dowc neu ddau.
Now for a dip or two.

Gwell i ni beidio aros i mewn yn rhy hir.
We had better not stop in too long.

Mi âf fi i fyny i wisgo.
I will go up and dress.

Gadewch i ni yn nesaf fyned AR y dwfr.
Let us next go UPON the water.

Boddlon fi; a dacw y cychwr yn gwneyd am danom.
I am agreeable; and there is the boatman making for us.

Camwch i mewn, a gwiliwch ar eich traed.
Step in, and mind your footing.

Dyma ni yn myned yn bleserus, gydag awel hyfryd.
Here we go pleasantly, with a fine breeze.

A ydych chwi yn agored i glefyd y môr?
Are you subject to sea sickness?

Y mae arnaf ofn y caf fi ef.
I am afraid I shall have it.

Pan mae hi yn dawel, nid all yr hwyliau fod o un lles.
When it is calm, the sails can be of no use.

Gwir; ond yna y mae genym ein rhwyfau i weithio.
True; but then we have our oars to work.

A oes llawer o lestri yn perthyn i'r porthladd hwn?
Are there many vessels belonging to this port?

Oes; ond nid ydyw masnach ddim yn bur fywiog.
A oes agerlongau yn rhedeg y ffordd yma?
Y mae rhai yn galw yn achlysurol gyda theithwyr.
Mi welaf long draw yn mhell.
Dyfod a llwyth o goed o America y mae hi.
A yw hi yn beryglus i forio y parthau hyn?
Ydyw, am fod llawer o greigiau a thraethellau oddeutu yma.
A gawn ni wneyd am y lan?
Cystal i ni hyny, gan fod y gwynt yn symud.
Wel, beth ydych yn feddwl o'n taith?
Yr wyf yn sicr y bydd o les mawr i ni ein dau.
Cymerwch ofal wrth lanio.
Yr wyf fi yn ddiogel; aroswch, mi a'ch helpaf chwi.
Yr wyf yn newynog ac yn sychedig; ac felly mi wnaf y goreu o'm ffordd gartref.

There are; but trade is not very brisk.
Are there any steamers plying this way?
There are some calling occasionally with passengers.
I see a ship in the distance.
It is bringing a cargo of timber from America.
Is it dangerous to navigate these parts?
It is, for there are many rocks and shoals about here.
Shall we make for the shore?
We may as well, as the wind is shifting.
Wel, what do you think of our trip?
I am sure it will be of great benefit to us both.
Be careful in landing.
I am safe: stop, I will assist you.
I am hungry and thirsty; and so I will make the best of my way home.

ADDOLIAD.—WORSHIP.

Pa ddydd o'r wythnos yw hi?
Dydd Sul ydyw.
Mor hyfryd ydyw cael boreu Sabbath teg!
Gorchymynir i ni gadw y dydd hwn yn santaidd.
Pa le o addoliad ydych chwi yn fynychu?
Yr wyf fi yn aelod o'r eglwys sefydledig.
Ac yr wyf finau yn myned i gapel ymneillduol.

What day of the week is it?
It is Sunday.
How delightful it is to have a fine Sabbath morning!
We are commanded to keep this day holy.
What place of worship do you attend?
I am a member of the established church.
And I go to a dissenting chapel.

Gadewch i ni fyned yn brydlawn; oblegyd mae y rhai sydd yn dyfod yn hwyr yn aflonyddu y gynnulleidfa.

Let us go in time; for those that come late disturb the congregation.

Pwy ddarllenodd y gwasanaeth i chwi y boreu yma?

Who read the service to you this morning?

Y curad; a'r periglor a bregethodd.

The curate; and the rector preached.

Beth ydoedd prif bwnc ei bregeth?

What was the chief subject of his sermon?

Ei sylwedd oedd addfwynder. Dangosodd hefyd amrywiol ddyledswyddau cristionogol ereill; megys, brawdgarwch, elusengarwch, gonestrwydd, ufydd-dod i rieni, boddlonrwydd i'n sefyllfa, ymostyngiad i'n huwchafiaid, ac felly yn mlaen.

The substance of it was meekness. He showed also various other christian duties; as, brotherly love, charitableness, honesty, obedience to parents, contentment in our station, subjection to our superiors, and so forth.

A oedd y cymun yn cael ei weinyddu heddyw?

Was the sacrament administered to-day?

Nac oedd; ond bedyddiwyd plentyn.

No; but a child was baptized.

A wnaed casgliad yno?

Was there a collection made?

Do, at yr ysgol rad.

Yes, for the charity school.

Fe gyhoeddwyd gostegion priodas hefyd yno.

Banns of marriage were also published there.

Yr ebrwyad oedd yn rhoddi allan yr emynau.

It was the vicar that gave out the hymns.

Yr oedd y canu yn rhagorol.

The singing was excellent.

Yr ydoedd yr esgob yn bresennol, ac efe a gyhoeddodd y fendith.

The bishop was present, and it was he that pronounced the benediction.

Pwy bregethodd yn eich capel chwi heddyw?

Who preached at your chapel to-day?

Y gweinidog sefydlog.

The stationed minister.

A gyflawnodd efe yr holl wasanaeth ei hunan?

Did he perform all the service himself?

Efrydydd ieuanc o'r athrofa a ddarllenodd ac a weddiodd ar y dechreu.

A young student from college read and prayed at the commencement.

Yn mha le yr oedd y testun?
Yn Epistol cyntaf Ioan, y bedwaredd bennod, a rhan o'r wythfed adnod.
Beth oedd y geiriau?
"Duw cariad yw."
Felly traethu ar gariad Duw yr oedd efe.
Ië; ond crybwyllodd am ereill o'i briodoleddau, megys cyfiawnder, santeiddrwydd, ollalluogrwydd, ollwybodaeth, ollbresennoldeb, annghyfnewidioldeb, anfeidroldeb, tragywyddoldeb, &c.
Cyfeiriodd hefyd at amryw bynciau o athrawiaeth; sef, edifeirwch, ffydd, cyfiawnhad, mabwysiad, santeiddhad, a gogoneddiad.
Sylwais hefyd ar y fath eiriau ag iachawdwriaeth, prynedigaeth, angeu, adgyfodiad, dydd y farn, nef, uffern, saint, angelion, cythreuliaid, bendigedig, melldigedig, &c.

Where was the text?
In the first Epistle of John, the fourth chapter, and part of the eighth verse.
What were the words?
"God is love."
So he was discoursing on the love of God.
Yes; but he mentioned others of his attributes, such as justice, holiness, omnipotence, omniscience, omnipresence, immutability, infinity, eternity, &c.

He referred also to many points of doctrine; that is, repentence, faith, justification, adoption, sanctification, and glorification.
I also noticed such words as salvation, redemption, death, resurrection, day of judgment, heaven, hell, saints, angels, devils, blessed, cursed, &c.

ABERYSTWYTH.

O ba le mae y dref hon yn deilliaw ei henw?
Oddiwrth *Aber*, yr hwn a arwydda gwympiad afon lai i un fwy, neu i'r môr; ac *Ystwyth*, yr hwn a arwydda hyblyg, ac sydd yn eithaf nodweddol o rediad dolenog yr afon hono.

Whence does this town derive its name?
From *Aber*, which implies the fall of a lesser river into a greater, or into the sea; and *Ystwyth*, which means pliant, and is quite characteristic of the winding course of that river.

Ai dyma ydoedd enw y dref bob amser?

Nage: gelwid hi gynt *Llanbadarn Gaerog*, ac yr ydym yn cyfarfod gyntaf â'r enw presennol yn nheyrnasiad y Frenines Elisabeth.

A ydyw y dref yn hen?

Adeiladwyd y castell gyntaf yn 1109, ond nid oes genym *son* am y dref hyd 1196.

Beth yw ei phoblogaeth?

Yn ol cyfrif 1841, yr ydoedd yn 4,916.

Pa fodd y llywodraethir hi?

Gan faer, pedwar henadur, a deuddeg o gynghorwyr; ac, mewn cysylltiad âg Aberteifi, Llanbedr, a Threhedyn, y mae yn anfon un aelod i'r senedd.

A fyddwch chwi mor garedig a rhoddi i mi gyfrif byr o'r prif wrthddrychau teilwng o sylw yn y dref a'i chyffiniau?

Gwnaf, gyda phleser; a chaf ddechreu gyda'r lleoedd addoliad.

Dechreuwyd yr Eglwys bresennol yn 1830, a gorphenwyd hi o fewn tair blynedd, ar draul o gylch 4000*p.*: cynnwysa 1100 o eisteddleoedd, 329 o ba rai ydynt rydd. Yr hen eglwys, yr hon a safai oddeutu 40 llath i'r de oddi wrth yr un bresennol, a ddechreuwyd yn 1762, ond bu heb ei gorphen hyd 1787. Cawsai eglwys flaenorol ei dadsylfaenu gan y môr, yn

Was this always the name of the town?

No: it was formerly called *Fortified Llanbadarn*, and we first meet with the present name in the reign of Queen Elizabeth.

Is the town old?

The castle was first built in 1109, but we have no *mention* of the town till 1196.

What is its population?

By the census of 1841, it was 4,916.

How is it governed?

By a mayor, four aldermen, and twelve councillors; and, in conjunction with Cardigan, Lampeter, and Adpar, it sends one member to parliament.

Will you be so kind as to give me a short account of the chief objects worthy of notice in the town and its environs?

I will, with pleasure: and shall begin with the places of worship.

The present Church was begun in 1830, and finished within three years, at a cost of about £4000: it contains 1100 sittings, 329 of which are free. The old church, which stood about 40 yards to the south of the present one, was commenced in 1762, but remained unfinished till 1787. A former church had been undermined by the sea, in the yard of which several

mynwent pa un y priodasid amryw bersonau ag ydoedd yn fyw yn 1762.

Capel y Trefnyddion Calfinaidd, yn Heol y Felin, a adeiladwyd gyntaf yn 1785, ac a helaethwyd yn 1831: mesura 60 troedfedd wrth 54 troedfedd. Y mae Ysgol ddyddiol dda yn perthyn i'r capel hwn, yr hon a gynnelir yn Heol y Crwynwr.

Capel y Bedyddwyr, yn Heol y Pobydd, a adeiladwyd gyntaf yn 1797, ac a helaethwyd yn 1833: mesura 54 troedfedd wrth 45, ac y mae Claddfa yn gysylltiedig âg ef.

Capel y Trefnyddion Wesleyaidd, yn Heol y Frenines, a gyfodwyd gyntaf yn 1801, ac a helaethwyd yn 1842: mesura 51 troedfedd wrth 39. Y mae Ysgoldy hardd mewn cysylltiad â'r capel hwn, yn Uchrodfa Lewis, lle cyflawnir gwasanaeth Seisonig bob Sabbath, ac y cynnelir Ysgol ddyddiol barchus.

Capel yr Annibynwyr, yn Mangre y Gofaint, a gyfodwyd yn 1823, yn mesur 45 troedfedd wrth 37; ond adgyweiriwyd a phrydferthwyd ef yn fawr yn 1845.

Capel y Trefnyddion Wesleyaidd Cymanfaol, ar Uchrodfa Lewis, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1839, ac a fesura 32 troedfedd wrth 29.

persons living in 1762 had been married.

The Calvinistic Methodist Chapel, in Mill Street, was first built in 1785, and enlarged in 1831: it measures 60 feet by 54 feet. There is a good Day-school belonging to this chapel, held in Skinner Street.

The Baptist Chapel, in Baker Street, was first built in 1797, and enlarged in 1833: it measures 54 feet by 45, and has a Burying-ground attached.

The Wesleyan Methodist Chapel, in Queen Street, was first erected in 1801, and enlarged in 1842: it measures 51 feet by 39. There is a handsome School-room connected with this chapel, in Lewis Terrace, where English service is performed every Sabbath, and a respectable Day-school held.

The Independent Chapel, in Vulcan Place, was erected in 1823, measuring 45 feet by 37; but was extensively repaired and decorated in 1845.

The Wesleyan Methodist Association Chapel, on Lewis Terrace, was built in the year 1839, and measures 32 feet by 29.

Yr Ysgolion Cenedlaethol, ar y Camas Gogleddol, a gyfodwyd yn 1819, ar dir y bwrdeisdref, ac yn benaf drwy haelioni y diweddar Pryse Pryse, Ysw., A.S.

Y Sefydliad Cymröaidd i'r Byddar a Mud, yn Heol y Wig, a agorwyd yn 1847: cynnelir ef drwy gyfraniadau gwirfoddol, efe yw yr unig sefydliad o'r fath yn y dywysogaeth, ac y mae yn agored i'r cyhoedd bob boreu dydd Mercher.

Clafdy Aberystwyth, ac Ysbytty Cyffredinol Ceredigion, yn sefyll yn Heol Portland Uchaf, a sefydlwyd yn ol ei drefn bresennol yn 1838, a gall wneyd i fyny 10 neu 12 o welyau.

Yr Ariandy Cynnilion, yn Heol y Bont, a sefydlwyd yn 1818: y mae ynddo yn bresennol uwchlaw 30,000*p.* o waesafion, ac y mae yn dra dyledus am ei lwyddiant i ymdrechion y Parch. Thos. Richards, o Garrog.

Yr Ystafelloedd Cyhoeddus, yn mhen uchaf Heol yr Eglwys, a adeiladwyd drwy gydroddion o 10*p.* yr un, ac a agorwyd yn 1820.

Y Farchnad Lafur, yn Heol y Farchnad, a gyfodwyd yn 1832: telir ceiniog o doll ynddi; ac o'i blaen y mae y prif safle i werthu ymenyn, wyau, ac ednaint.

The National Schools, on the North Parade, were erected in 1819, on corporation land, and chiefly through the munificence of the late Pryse Pryse, Esq., M.P.

The Cambrian Institution for the Deaf and Dumb, in Pier Street, was opened in 1847: it is supported by voluntary contributions, being the only establishment of the kind in the principality, and is open to the public every Wednesday morning.

The Aberystwyth Infirmary, and Cardiganshire General Hospital, situate in Upper Portland Street, was established on its present footing in 1838, and can make up 10 or 12 beds.

The Savings' Bank, in Bridge Street, was established in 1818: it has at present deposits exceeding £30,000, and is greatly indebted for its success to the exertions of the Rev. Thos. Richards, of Carrog.

The Public Rooms, at the upper end of Church Street, were built by subscriptions of £10 each, and opened in 1820.

The Corn Market, in Market Street, was erected in 1832: a toll of one penny is paid in it; and in front is the principal stand for the sale of butter, eggs, and poultry.

Y Farchnad Gig, yn Mhetryal St. Iago, a adeiladwyd drwy gydroddion, yn 1824, ac a fesura 104 troedfedd wrth 31.

Y Farchnad Bysgod a gynnelir dan Lysdy y Dref, o amgylch pa un y gwerthir llysiau a ffrwythydd.

Y Llysdy newydd, ar y Morfa, a ddechreuwyd yn 1844, ond erys heb ei orphen: y mae wedi ei gynllunio yn rhagorol at drin achosion cyfreithiol.

Gweithdy yr Undeb, ar yr ochr ogleddol i'r dref, a adeiladwyd yn 1840: mae yn 220 troedfedd o'i du blaen, ac yn addas i gynnal 200 o dylodion.

Mae y Pwnt, o'r hwn y cyflenwir y dref â dwfr, yn agos i Graig Lais, a chynnwysa 185,000 o alwyni: cwblhawyd y gweithiau yn 1837, ar draul o 5000*p.*

Gweithiau y Goleunwy, ger Pont Corry, a gyfodwyd yn 1838, ar draul o 4000*p.* mewn cydranau o 10*p.* yr un.

Dechreuwyd Canbost blaenorol yn 1806, yr hwn sydd o'r golwg er's talm; ond yr un presennol a ddechreuwyd yn 1836, ac a gariwyd allan 260 llath, ar draul o dros 15,000*p.*: yr hyd bwriadol oedd i fod yn 300 llath. Y mae 164 o lestri, o 9000 o dynelli rhestredig, yn perthyn i'r porthladd hwn, y rhai a orchwyliant uwchlaw 700 o forwyr, dynion a hogiau.

The Meat Market, in St. James' Square, was built by subscription, in 1824, and measures 104 feet by 31.

The Fish Market is held under the Town Hall, around which vegetables and fruits are sold.

The new Court House, on the Marsh, was begun in 1844, but remains unfinished: it is admirably planned for conducting legal business.

The Union Workhouse, on the north side of the town, was built in 1840: it is 220 feet in front, and calculated to hold 200 paupers.

The Reservoir, from which the town is supplied with water, is near Constitution Hill, and will contain 185,000 gallons: the works were completed in 1837, at a cost of £5000.

The Gas Works, near Corry Bridge, were erected in 1838, at a cost of £4000, in shares of £10 each.

A former Pier was begun in 1806, which has long since disappeared; but the present one was commenced in 1836, and has been carried out 260 yards, at an outlay of upwards of £15,000: the intended length was to be 300 yards. There are 164 vessels, of 9000 tons register, belonging to this port, which employ upwards of 700 seamen, men and boys.

Y Cyllidty sydd adeilad brydferth, mewn lle cyfleus, yn gwynebu y porthladd.

Y Ffynnon Dduraidd, gogyfer ag Uchrodfa Lewis, a ddarganfuwyd yn 1779, ac y mae ei dwfr yn ogystal a'r eiddo Brighton a Scarborough.

Oddiwrth y ffynnon uchod y mae rhodfa hyfryd iawn yn arwain at Plas Crug, yr hwn a fu unwaith yn hynod fel preswylfod castellaidd i Dywysogion Cymreig.

Ychydig yn mhellach drachefn y mae pentref Llanbadarnfawr, lle o bwys neillduol ar un pryd, yn meddu eglwys esgobawl a mynachdy: sylfaenwyd ef gan St. Padarn, yn y 6ed ganrif; ond y mae arddull yr eglwys bresennol yn ei phrofi yn adeilad o'r 12fed ganrif. Mae y lle yn werth ymweled âg ef, a'i hanes yn werth ei ddarllen.

O ben Craig Lais, ar y gogledd i'r dref, gellir cael golwg ardderchog ar y Môr-gilfach, o Ben Dewi hyd i Ynys Enlli.

Pen Dinas, ar y deheu, ydoedd sefyllfa gadarn mewn amseroedd rhyfelgar; a chafwyd llawer o weddillion henafiaeth arno o bryd i bryd.

Craig yr Alltwen ydyw terfyn, drwy ddeddf seneddol, porthladd Aberystwyth ar y deheu, a Chraig Lais ar y gogledd.

The Custom-house is a neat building, conveniently situate, overlooking the harbour.

The Chalybeate Well, opposite to Lewis Terrace, was discovered in 1779, and its water is equal to that of Brighton and Scarborough.

From the above well a very pleasant walk leads to Plas Crug, which was once noted as a castellated mansion of Welsh Princes.

A little farther on again is the village of Llanbadarnfawr, at one time a place of great importance, having an episcopal church and an abbey: it was founded by St. Paternus, in the 6th century; but the style of the present church proves it to be an erection of the 12th century. The place is worth visiting, and its history worth reading.

From the top of Constitution Hill, on the north of the town, a fine view may be had of the Bay, from St. David's Head to Bardsey Island.

Dinas Hill, on the south, was a strong position in warlike times; and many vestiges of antiquity have been found on it from time to time.

The Alltwen cliff is the limit, by act of parliament, of the port of Aberystwyth on the south, and Constitution Hill on the north.

Y CASTELL.

Yr wyf yn dra rhwymedig am yr hysbysrwydd a roisoch; ond atolwg dywedwch i mi rywbeth eto am y castell.

Rhaid i mi fod yn bur fyr: modd bynag, y braslun canlynol a gynnwysa y prif ddygwyddiadau yn ei hanes.

Yn 1109, Gilbert de Strongbow, un o Farwniaid Harri I., a oresgynodd ac a orchfygodd Geredigion; ac i'r dyben o amddiffyn ei drawsfeddiant, efe a adeiladodd gastell yn Aberystwyth ar y gogledd, ac un arall yn Cilgerran ar y terfyn deheuol.

